OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2024 Rhif (Cy. )

# TRAFFIG FFYRDD, CYMRU

## Gorchymyn Cefnffordd yr A40 (Y Fenni I Raglan, Sir Fynwy) (Gwahardd Cerbydau Dros Dro) 2024

*Gwnaed* *26 Tachwedd 2024*

*Yn dod i rym* *2 Rhagfyr 2024*

Mae Gweinidogion Cymru, sef yr awdurdod traffif ar gyfer cefnffordd yr A40, wedi eu bodloni y dylid gwahardd traffig ar ddarnau penodedig o'r gefnffordd oherwydd gwaith y bwriedir ei wneud ar y ffordd neu gerllaw iddi.

Mae Gweinidogion Cymru, felly, drwy arfer y pwerau a roddir iddynt gan adran 14(1) a (4) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984(**1**), yn gwneud y Gorchymyn hwn.

### Enwi a chychwyn

**1.** Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Cefnffordd yr A40 (Y Fenni i Raglan, Sir Fynwy) (Gwahardd Cerbydau Dros Dro) 2024 a daw'r Gorchymyn hwn i rym ar 2 Rhagfyr 2024.

### Dehongli

**2.** Yn y Gorchymyn hwn—

ystyr "cerbyd esempt" ("exempted vehicle") yw unrhyw gerbyd sy'n cael ei ddefnyddio gan y Gwasanaethau brys neu mewn cysylltiad â'r gwaith sy'n arwain at y Gorchymyn hwn;

(**1**) 1984 p. 27; amnewidiwyd adran 14 gan adran 1(1) o Ddeddf Traffig Ffyrdd (Cyfyngiadau Dros Dro) 1991 (p. 26), ac Atodlen 1 iddi. Yn rhinwedd O.S. 1999/672, ac adran 162 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p. 32) a pharagraff 30 o Atodlen 11 iddi, mae'r pwerau hyn yn arferadwy bellach gan Weinidogion Cymru o ran Cymru.

WELSH STATUTORY INSTRUMENTS

# 2024 No. (W. )

# ROAD TRAFFIC, WALES

## The A40 Trunk Road (Abergavenny to Raglan, Monmouthshire) (Temporary Prohibition of Vehicles) Order 2024

*Made* *26 November 2024*

*Coming into force* *2 December 2024*

The Welsh Ministers¸ as traffic authority for the A40 Trunk Road, are satisfied that traffic on specified lengths of the trunk road should be prohibited because of works proposed on or near the road.

The Welsh Ministers, therefore, in exercise of the powers conferred upon them by section 14(1) and (4) of the Road Traffic Regulation Act 1984(**1**), make this Order.

### Title and commencement

**1.** The title of this Order is The A40 Trunk Road (Abergavenny to Raglan, Monmouthshire) (Temporary Prohibition of Vehicles) Order 2024 and this Order comes into force on 2 December 2024.

### Interpretation

**2.** In this Order—

"exempted vehicle" ("*cerbyd esempt*") means any vehicle being used by the emergency services or in connection with the works giving rise to this Order;

(**1**) 1984 c. 27; section 14 was substituted by the Road Traffic (Temporary Restrictions) Act 1991 (c. 26), section 1(1) and Schedule 1. By virtue of S.I. 1999/672, and section 162 of, and paragraph 30 of Schedule 11 to, the Government of Wales Act 2006 (c. 32), these powers are now exercisable by the Welsh Ministers in relation to Wales.

ystyr "cyfnod y gwaith" ("*works period*") yw'r cyfnod sy'n dechrau am 20:00 o'r gloch ar 2 Rhagfyr 2024 ac sy'n dod i ben pan gaiff yr arwyddion traffig dros dro eu symud ymaith yn barhaol;

ystyr "y gefnffordd" ("*the trunk road*") yw Cefnffordd yr A40 Rhaglan i Lanymddyfri.

"the trunk road" ("*y gefnffordd*") means the A40 Raglan to Llandovery Trunk Road;

"works period" ("*cyfnod y gwaith*") means the period commencing at 20:00 hours on 2 December 2024 and ending when the temporary traffic signs are permanently removed.

**Gwaharddiad**

**3.** Ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, yrru unrhyw gerbyd, ac eithrio cerbyd esempt, ar y darnau o'r gefnffordd a bennir yn yr Atodlen i'r Gorchymyn hwn.

**Prohibition**

**3.** No person may, during the works period, drive any vehicle, other than an exempted vehicle, on the lengths of the trunk road specified in the Schedule to this Order.

**Cymhwyso**

**4.** Nid yw'r gwaharddiad yn erthygl 3 yn gymwys ond ar yr adegau hynny ac i'r graddau hynny y bydd arwyddion traffig yn eu dangos.

**Application**

**4.** The prohibition in article 3 applies only during such times and to such extent as indicated by traffic signs.

**Cyfnod Para'r Gorchymyn hwn**

**5.** Bydd y Gorchymyn hwn yn para am 12 mis ar y mwyaf.

**Duration of this Order**

**5.** The maximum duration of this Order is 12 months.

Llofnodwyd ar ran Ysgrifennydd y Cabinet dros Drafnidiaeth a Gogledd Cymru, un o Weinidogion Cymru.

Dyddiedig 26 Tachwedd 2024

*Nicci Hunter*
Arweinydd y Tîm Busnes
Thrafnidiaeth
Llywodraeth Cymru

Signed on behalf of the Cabinet Secretary for Transport and North Wales, one of the Welsh Ministers.

Dated 26 November 2024

*Nicci Hunter*
Business Team Leader
Transport
Welsh Government

**YR ATODLEN**

Y darn o'r A40 tua'r dwyrain sy'n ymestyn o Gylchfan Hardwick, y Fenni hyd at ochr orllewinol Cylchfan Rhaglan, Rhaglan.

Y darn o'r A40 tua'r dwyrain sy'n ymestyn o ochr ddwyreiniol Cylchfan Rhaglan, Rhaglan hyd at y groesfan sy'n cysylltu Monmouth Road â Groesenon Road.

**SCHEDULE**

The length of the eastbound A40 that extends from the Hardwick Roundabout, Abergavenny to the western side of Raglan Roundabout, Raglan.

The length of the eastbound A40 that extends from the eastern side of Raglan Roundabout, Raglan to the crossing connecting Monmouth Road with Groesenon Road.